



Annwyl Landlord,

Wrth inni agosáu at weithrediad Rhentu Cartrefi, rydym yn rhoi crynodeb o'r holl ganllawiau a gyhoeddwyd hyd yma i'ch helpu i baratoi ar gyfer y newid mwyaf mewn cyfraith tai ers degawdau. Rydym hefyd yn datgelu rhai adnoddau newydd sbon, gan gynnwys ein fideo 'Opsionau Hyfforddi ar gyfer Trwyddedu' diweddaraf a chyfeiriadur gwasanaethau tai lleol defnyddiol i'ch helpu chi a'ch tenantiaid i gael mynediad at wasanaethau cymorth a chymhellion ariannol yn eich ardal.

Mae uchafbwyntiau yn y rhifyn hwn yn cynnwys:

- Rhentu Cartrefi: Yr hyn a wyddom hyd yma
- Opsionau hyfforddi ar gyfer trwyddedu landlord ac asiant
- Methiannau Diogelwch Nwy a chanlyniadau angheuol
- Cyfeiriadur Tai Lleol: Ffordd newydd o chwilio am wasanaethau tai lleol
- Cymorth Egni am Ddim i Bobl Hŷn sy'n Rhentu'n Preifat

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb



| DEDDFWRIAETH NEWYDD

Rhentu Cartrefi: Yr hyn a wyddom hyd yma

Daw newid mawr i gyfraith tai i rym ar 15 Gorffennaf, gan newid y modd y mae landlordiaid yn rhentu eu heiddo yng Nghymru.

Dros y misoedd, byddwch wedi derbyn diweddariadau ar y newidiadau allweddol, a'r hyn y mae angen i chi ei wneud. Mae cyngor ar gael nawr ynghylch:

- **Contractau ysgrifenedig gorfodol**

O 15 Gorffennaf, dim ond un fframwaith cyfreithiol fydd ar gyfer tenantiaethau yng Nghymru gyda phob cytundeb tenantiaeth sector rhentu preifat yn cael eu galw'n 'Contractau Meddiannaeth Safonol'.

Bydd gofyn i bob tenantiaeth newydd ar ôl y dyddiad gweithredu gyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth o fewn **14 diwrnod**. Rhaid i hwn gynnwys holl delerau'r contract.

Ar gyfer pob tenantiaeth bresennol, bydd gennych **6 mis** i drosi i'r contractau math newydd a rhoi datganiad ysgrifenedig i'ch tenant (a elwir yn 'ddeiliaid contract' o dan y Ddeddf newydd).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu Contractau Ysgrifenedig Enghreifftiol y gellir eu defnyddio fel sail ar gyfer creu contract newydd. I gael manylion llawn am gontractau ysgrifenedig, cliciwch [yma](#).

- **Sut i drosi eich cytundebau tenantiaeth presennol**

Gallwch gael mynediad at restr wirio ddefnyddiol i'ch helpu i drosi eich cytundebau tenantiaeth presennol [yma](#).

- **Sicrhau bod eich eiddo'n ddiogel ac yn addas i bobl fyw ynddo**

Mae safon 'Ffitrwydd i Fod yn Gartref' (FfIFYG) newydd yn gosod rhwymedigaeth ar y landlord i sicrhau bod eiddo'n ddiogel a bod diffygion yn cael eu trin yn effeithlon ac yn effeithiol.

O dan y gofynion newydd hyn, bydd disgwyl i chi sicrhau bod eich eiddo rhent â:

- larymau mwg
- synhwyrddion carbon monocsid ac
- archwiliad, profi ac ardystio'r gosodiad trydanol o leiaf bob 5 mlynedd.

I ddysgu mwy am y gofynion FfIFYG newydd a'r hyn y mae'n rhaid ei wneud cyn 15 Gorffennaf, cliciwch [yma](#).

Cadwch lygad am ragor o ddiweddariadau Rhentu Cartrefi gennym neu ewch i'n tudalen newyddion Rhentu Cartrefi pwrpasol [yma](#).

**Newyddion Rhentu
Cartrefi >**

**Gweld yr holl
ganllawiau >**



| OPSIYNAU HYFFORDDI

A yw eich Trwydded Rhentu Doeth Cymru yn dod i ben eleni?

Dim ond am bum mlynedd y mae trwyddedau'n ddilys ac yna mae angen eu hadnewyddu. Mae rhan o'r broses ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddiweddarau eich hyfforddiant. Y newyddion da yw bod opsiynau hyfforddi ychwanegol ar gael yn ystod y cam adnewyddu.

Gallwch naill ai gwblhau'r hyfforddiant mewn un cynnig, cwrs cyfwerth ag **1 diwrnod** (mewn ystafell ddosbarth neu ar-lein) neu ddewis dull modiwlaid drwy **Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**.

Mae DPP yn caniatáu i chi fireinio ar bynciau penodol sydd o ddi-ddordeb i chi ac yn berthnasol i'ch model busnes e.e. rheoli gosodiadau myfyrwyr neu feithrin ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yn y Sector Rhentu Preifat.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i chi yn cael eu hegluro yn ein fideo. Gwylwch y **fideo** i benderfynu ar y llwybr gorau i chi.

Cynllunwch ymlaen llaw i sicrhau bod gennych ddigon o amser i gwblhau'r hyfforddiant ymhell cyn dyddiad terfyn y drwydded. I gael rhagor o wybodaeth cliciwch **yma**.

[Gwylwch y fideo >](#)



| CYFLWR TAI

Methiannau Diogelwch Nwy a chanlyniadau anghewol

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi rhoi cyhoeddusrwydd i erlyniadau a wnaed sy'n dangos y peryglon a'r canlyniadau ariannol o dorri gofynion diogelwch nwy sylfaenol.

- [Dirwy i Northern Gas Networks Ltd wedi ffrwydrad nwy anghewol](#)
- [Contractwr wedi cael dedfryd ohiriedig ar ôl gwneud gwaith nwy anghyfreithlon](#)
- [Landlord yn cael dirwy am beidio â darparu tystysgrifau diogelwch nwy](#)

Mae sicrhau diogelwch nwy yn eich eiddo rhent yn bwysig iawn ac mae help ac arweiniad ar gael i'ch helpu **yma** i wneud pethau'n gywir.

Yn ogystal, mae **Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru** yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid cadw iddo wrth weithredu fel landlord/asiant trwyddedig. Mae hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau o ran diogelwch nwy.

Mae cyfrifoldebau'n cynnwys:

- **Cynnal a chadw'r holl offer nwy a ffliwiau**

Rhaid i'r holl osodiadau a ddarperir ar gyfer gwresogi'r eiddo gael eu cadw mewn cyflwr da gyda chyfarpar nwy a ffliwiau sydd angen gwiriad diogelwch nwy blynyddol.

- **Rhaid i gcontractwyr penodedig fod â chymwysterau addas**

Rhaid i unrhyw waith cynnal a chadw neu atgyweirio ar gyfarpar nwy a ddarperir gael ei wneud gan rywun sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestr Diogelwch Nwy. Gallwch wirio a oes gan eich contractwr gymwysterau cyfreithlon **yma**.

- **Mae cadw cofnodion a dogfennau yn allweddol**

Rhaid cadw cofnodion o'r gwiriadau am o leiaf 2 flynedd o bob cyfarpar a fflwy, unrhyw ddiffygion a ganfuwyd ac unrhyw gamau adferol a gymerwyd. Rhaid rhoi copi o'r dystysgrif ddiogelwch a roddir gan y peiriannydd i bob tenant presennol o fewn 28 diwrnod i'r gwiriad gael ei gynnal.

Edrychwch ar ein fideo Cod Ymarfer **yma**.

Gwasanaethau cymorth a chymhellion ariannol yn eich ardal

| ADNODDAU

Cyfeiriadur Tai Lleol: Ffordd newydd o chwilio am wasanaethau tai lleol

Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau er mwyn helpu i gefnogi landlordiaid a thenantiaid i gynnal tenantiaethau, yn enwedig i bobl sy'n agored i niwed.

Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn chwilio am eiddo i gartrefu pobl leol a/neu gynnig cynlluniau prydlesu, cymorth ariannol, gwasanaethau Dod o hyd i Denantiaid neu ddarparu eu gwasanaethau asiantaeth llawn eu hunain ar ran landlord.

Ar y cyd â'r 22 awdurdod lleol, datblygwyd Cyfeiriadur Tai Lleol, sy'n darparu rhestr gynhwysfawr o'r gwasanaethau cymorth hyn a chymhellion ariannol.

I weld beth sydd ar gael yn eich ardal chi, cliciwch [yma](#).

Gweld y cyfeiriadur >

| CYMORTH I DENANTIAID

Cymorth Egni am Ddim i Bobl Hŷn sy'n Rhentu'n Preifat



Gyda chynnydd anferthol mewn billiau ynni, mae mwy o bobl mewn tloedi tanwydd nag erioed o'r blaen a phobl hŷn sy'n cael eu taro waethaf yn aml.

Fel landlord gallwch fod â phrofiad o denantiaid hŷn sy'n gynyddol bryderus, wrth i'r argyfwng mewn costau byw ddwysau. Dyna pam fod prosiect [70+ Care & Repair Cymru](#) yn helpu i gadw pobl hŷn yn gynnes, diogel ac annibynnol yn eu cartrefi.

Mae Swyddogion Ynni Cartref dibynadwy ac ymroddedig Care & Repair Cymru yn cynnig atgyfeiriadau a **chyngor am ddim i bobl 60 oed a throsodd**, sydd naill ai'n rhentu'n breifat neu'n berchen eu cartrefi eu hunain.

Rhannwch y ddolen islaw gyda'r rhai y credwch all fod ei angen os gwelwch yn dda.

Dysgwch fwy >